ATODLEN 3

Gofynion yn ôl disgresiwn

# RHAN 1

## Gosod gofynion yn ôl disgresiwn a gweithdrefn

### Pŵer i osod gofynion yn ôl disgresiwn

**1.**—(1) Caiff gweinyddwr drwy hysbysiad osod un neu fwy o ofynion yn ôl disgresiwn ar werthwr sy'n torri'r Rheoliadau hyn(**1**).

(2) Caiff gweinyddwr arfer y pŵer a roddir gan is-baragraff (1) mewn perthynas ag achos os yw wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd bod y toriad yn y Rheoliadau wedi digwydd.

(**1**) I gael ystyr "*discretionary requirement*" *gweler* paragraff 12(3) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.